Therapi Iaith a Lleferydd i Blant
Children's Speech & Language Therapy
02921 836585

# Annog Archwilio Gweadau

Mae plant yn archwilio'r byd drwy gyffwrdd. Nid pob plentyn sy'n hoffi pob gwead felly mae'n bwysig bod gan eich plentyn ddigon o gyfle i brofi teimladau cyffwrdd gwahanol.

## Canllawiau:

- Peidiwch byth â gorfodi eich plentyn i gyffwrdd â rhywbeth sy'n achosi trallod iddo.
- Gwnewch ddim ond yr hyn sy'n cael ei dderbyn/goddef bob tro. Bydd goddefgarwch yn datblygu'n raddol.
- Dechreuwch gyda gweadau sy'n gadarn ac yn sych - mae'r rhain yn llai heriol.
- Caniatewch i'ch plentyn reoli lefel y profiad a rhoi'r gorau iddi pan fo angen.

## Syniadau am weithgareddau:

Dechreuwch gyda **Bag Teimlo** - Rhowch ddau neu dri gwrthrych sy'n teimlo'n wahanol yn y bag. Rhowch gynnig ar ddeunyddiau fel sgarff sidan, loofah, sbwng, papur sgleiniog/ffoil wedi'i wasgu at ei gilydd, llinynnau o gleiniau, brics/peli o wead gwahanol ac ati. Anogwch eich plentyn yn gyntaf i edrych yn y bag ac yna dewis gwrthrych. Yna ceisiwch ei gael i'w wneud gyda'i lygaid ar gau. Ar y cam yma, mae'r llyfrau mawr i fabanod gyda lluniau o wead gwahanol i'w teimlo hefyd yn hyfryd i edrych arnynt gyda'ch gilydd.

**Chwarae yn y dŵr** – Llenwch fowlen blastig a'i gymryd i mewn i'r ardd neu ei roi yn y bath. Casglwch ynghyd amrywiaeth o gwpanau na ellir eu torri, pympiau dŵr, caniau dyfrio bach, chwisgiau a chael hwyl yn mesur a thywallt. Gallwch geisio lliwio'r dŵr/ychwanegu swigod/arogleuon fel y dymunwch os yw'ch plentyn yn hapus i roi cynnig arni.

**Chwarae yn y tywod** – Os oes gennych chi flwch tywod, ychwanegwch deganau bach fel ceir a lorïau, deinosoriaid a ffigyrau y gellir eu claddu a'u darganfod yn y tywod. Fel arall, mae twb gwag wedi'i lenwi â ffa sych, pasta, reis neu bopcorn yn gwneud hambwrdd da i ddarganfod pethau ynddo.



**Playdough** – Defnyddiwch naill ai beth cartref neu o'r siop i'w drin, ei wasgu, rholio a siapio. Unwaith eto gallech chi ychwanegu lliw ac arogl i'r toes gyda lliwiau a rhinflasau bwyd.

**Chwarae Blêr** – Chwaraewch ar gynfas plastig mawr gydag ewyn, jeli, mousse neu lysnafedd. Anogwch eich plentyn i dynnu, procio, gwasgu a phaentio gyda'i fysedd.

**Chwarae yn yr Ardd** – Chwaraewch yn yr ardd yn casglu dail, brigau, yn plannu bylbiau neu wneud pastai mwd.

**Ffyrdd eraill o helpu: Gweler hefyd y taflenni gweithgareddau blasu am y tro cyntaf amgaeedig.**

*Cardiff and Vale University Health Board is the operational name of Cardiff and Vale University Local Health Board.*
*Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.*